

Ffurflen Sylwadau,
Canmoliaeth a
Chwynion ar gyfer
Plant a Phobl Ifanc

Oes gennych
chi unrhyw
beth yr hoffech
ei ddweud
wrthym ni?



Pam fyddwn i'n cwyno?

Efallai eich bod eisiau cwyno oherwydd:

Eich bod yn teimlo nad ydych wedi derbyn rhywbeth yr oedd gennych hawl i'w gael. Mae crynodeb o Hawliau Plant i'w weld yma: UNCRC

http://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_summary-1.pdf

Bod rhywun yn gwneud rhywbeth i chi nad ydych chi'n ei hoffi neu'n gwneud i chi deimlo'n anghyforddus (er enghraifft, efallai eich bod yn teimlo nad ydych wedi cael eich trin â pharch).



Eich bod wedi cael gwybod na allwch chi gael cymorth na defnyddio gwasanaeth y cyngor.

Eich bod wedi cael eich trin yn annheg gan aelod o staff.

Eich bod wedi cael gwybod y byddai rhywbeth yn cael ei wneud ond nid yw wedi cael ei wneud, neu'n mae'n cymryd yn rhy hir.

Os nad yw eich problem yn cyd-fynd ag un o'r uchod neu os nad ydych chi'n siŵr, cysylltwch â ni beth bynnag.

Dyma'r gwasanaethau y gallwch gwyno amdanynt:

- Tai
- Llyfrgelloedd
- Parciau
- Meysydd chwarae
- Ailgylchu
- Ysgolion
- Cludiant ysgol
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Anghenion Addysgol Arbennig
- Gwasanaeth Ieuencid



Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n anhapus ynghylch rhywbeth?



1. Yn gyntaf, fe ddylech siarad gyda rhywun.
2. Peidiwch â chadw'r cyfan yn gyfrinach.
3. Os nad ydych chi'n hapus, siaradwch gydag oedolyn y gallwch ymddiried ynddo/ynddi, efallai y gallan nhw ddatrys y broblem. Gallai fod:
 - Yn aelod o'ch teulu
 - Yn ofalwr maeth
 - Yn gynghorydd bugeiliol
 - Yn swyddog diogelu ac adolygu annibynnol
 - Yn weithiwr ieuencid
 - Eich athro/athrawes
 - Yn weithiwr cymdeithasol
 - Yn eiriolwr



Beth os ydw i'n parhau i fod yn anhapus?

Cysylltwch â Gareth, Frankie neu Ian o'r Tîm Cwynion a fydd naill ai'n eich helpu i symud eich cwyn ymlaen neu sicrhau bod rhywun yn gwrandao ar eich sylwadau.

Os ydych chi'n poeni am siarad gyda'r fim cwynion ar eich pen eich hun, gallwch ofyn i oedolyn y gallwch ymddiried ynndo/ynddi siarad ar eich rhan. Os oes gennych weithiwr cymdeithasol, yna gallwch ofyn i eiriolwr o TGP Cymru helpu. Gallwch gysylltu â nhw ar y Rhadffôn yma: 0800 111 6880 neu gofynnwch i'ch gweithiwr cymdeithasol gysylltu â nhw ar eich rhan.

Os nad oes gennych chi weithiwr cymdeithasol, gallwch gysylltu â'r gwasanaeth eiriolaeth Second Voice ar y rhif Rhadffôn yma: **0800 032 2630**

Gall plant neu grwpiau o blant a phobl ifanc megis cyngorau ysgol wneud cwynion ar ran plentyn arall.

01978 292087

complaints@wrexham.gov.uk

Neu gallwch ddefnyddio'r ffurflen sydd yng nghanol y daflen hon.

Y Tîm Cwynion

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

Ffurflen Sylwadau,
Canmoliaeth a
Chwynion ar gyfer
Plant a Phobl Ifanc.



Mae'r llyfryn hwn ar gael mewn ieithoedd a fformatau gwahanol neu ar bapur lliw gwahanol ar gais.

Beth sy'n digwydd i fy nghwyn?

Bydd **Gareth, Frankie** neu **Ian** o'r **Tim Cwynion** yn siarad gyda chi i gasglu'r manylion am y broblem a beth yr hoffech chi ei weld yn digwydd. Gallwch wneud cwyn neu roi sylw yn unig. Ni fydd unrhyw un yn mynd i drwbl os byddwch chi'n dweud rhywbeth am aelod o staff.

Yna bydd **rheolwr fîm** yn ymchwilio i'ch problem ac yn ceisio ei ddatrys. Byddant yn ysgrifennu atoch ac yn dweud beth maent yn bwriadu ei wneud.

Yna gall y **Tim Cwynion** siarad gyda chi am y penderfyniad os nad ydych chi'n hapus.

Os nad ydych chi'n fodlon, **byddwn** yn egluro beth fydd yn digwydd nesaf.

Canmoliaethau

Mae hi bob amser yn braf clywed pethau da. Gadewch i Gareth, Frankie neu Ian o'r fîm Cwynion wybod os oes rhywun wedi gwneud rhywbeth rydych chi'n teimlo sy'n gefnogol neu'n gynorthwyol iawn.

Byddant yn cael tystysgrif i ddiolch iddynt.



Ffurflen Sylwadau, Canmoliaethau a Chwynion

Cofiwch os byddwch chi angen siarad gyda rhywun ar frys, gallwch ffonio llinell gymorth gwnsela cyfrinachol AM DDIM:

Meic 080880 23456 **neu anfonwch neges destun** 84001 **Childline** 0800 1111 ✂

Fy enw

Fy oedran

Fy nghyfeiriad

Fy rhif ffôn:

Fy nghyfeiriad e-bost

Mae fy sylw, canmoliaeth neu gŵyn ynghylch

Mae gwefan Cyngor Wrexham yn egluro sut rydym ni'n defnyddio eich gwybodaeth:
https://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/privacy.htm

Hoffwn i chi gysylltu â mi:

Drwy ffonio

Drwy e-bostio

Drwy anfon llythyr i fy nghyfeiriad cartref

Yn yr ysgol, gadewch i ni wybod beth yw enw'r ysgol

Rhywle arall